# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 28 Tachwedd 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

# 103(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant: Gwella Canlyniadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

(45 munud)

## 4 Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Datgelu a Ganiateir) (Cymru) 2017

(15 munud)

**NDM6577** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Datgelu a Ganiateir) (Cymru) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Hydref 2017.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

Adroddiad Y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 5 Dadl: Entrepreneuriaeth: Pwrpas Cenedlaethol

(60 munud)

**NDM6578** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod bod entrepreneuriaeth a mentrau bach a chanolig yn allweddol i Gymru o safbwynt creu gwell swyddi a chefnogi buddsoddiad a bod gan Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, swyddogaeth allweddol o safbwynt creu'r amgylchedd cywir a chefnogi'r seilwaith.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn rhwydwaith o ganolbwyntiau entrepreneuraidd ym mhob rhan o Gymru.

Yn cynnig defnyddio'r cronfeydd trafodiadau ariannol newydd a ddyrannwyd i Gymru gan Lywodraeth y DU i greu cronfa fuddsoddi busnesau bach a chanolig newydd ar gyfer Banc Datblygu Cymru.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu corff arloesi cenedlaethol penodedig, fel partneriaeth rhwng busnes, llywodraeth a'r byd academaidd i gynyddu lefelau datblygu o ran cynhyrchion newydd.

## 6 Cyfnod pleidleisio

## 7 Dadl: Cyfnod 3 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

(60 munud)

Caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y cafodd yr adrannau a’r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt eu rhestru yn y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 a gytunwyd gan y Cynulliad ar 21 Tachwedd 2017.

**Mae’r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

**1. Dileu’r ataliad dros dro presennol ar yr hawl i brynu**

5, 14, 9, 11, 1, 3

**2. Cyfnod diddymu**

6, 13, 2

**3. Gwybodaeth i denantiaid a darpar denantiaid: gofynion ar Weinidogion Cymru**

7, 8

**4. Gwybodaeth i denantiaid a darpar denantiaid: gofynion ar landlordiaid**

15, 16

**5. Pŵer drwy reoliadau i wneud diwygiadau canlyniadol**

10

**6. Y darpariaethau diddymu yn dod i rym**

12, 4

**Dogfennau Ategol**

Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

Rhestr o Welliannau wedi'u didoli

Grwpio Gwelliannau

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2017